| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **22 HYDREF 2010** |
| **TEITL:** | **DIWEDDARU AMODAU HACNI / HURIO PREIFAT** |
| **PWRPAS:** | **ER GWYBODAETH** |
| **AWDUR:** | **RHEOLWR TRWYDDEDU** |

<u>HANES</u>

Wrth dderbyn trwydded o beth bynnag fath yn y maes hacni/hurio preifat, mae gofyn am i bob deilydd trwydded gydymffurfio ag amodau a osodir gan y Cyngor. Mae gofyn bod yr amodau'n gyfredol, i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu amgylchiadau. Mae hwn yn faes sydd yn newid yn barhaol, gyda datblygiadau technegol a cherbydau'n newid yn gyson, ac o nodi nad yw'r amodau wedi eu hadolygu'n llawn ers beth amser, cyflwynir yr adroddiad yma i ystyriaeth y pwyllgor.

<u>Y PRIF NEWIDIADAU</u>

Nodir isod y prif newidiadau a'r rhesymeg o paham yr ydym yn argymell y newid.

<u>Cerbydau</u>

- Gwneud i ffwrdd gydag uchafswm oed pryd y ceir car ei drwyddedu, ond bod angen prawf mecanyddol ychwanegol ar unrhyw gerbyd ar ôl iddo gyrraedd 10 oed.

  Ein rhesymeg yw ein bod fel swyddogion yn credu nad ein dewis ni yw pryd y bydd cerbyd yn addas a'i beidio a bod oedran yn ystyriaeth gwael, cyn belled a bod pob cerbyd yn cyfarfod a'r gofynion mecanyddol. Rydym yn unigryw yng Ngogledd Cymru yn gosod y cyfyngiad o 10 oed.

- Bod angen i bob cerbyd sy'n cael ei drwyddedu am y tro cyntaf fod yn llai na 6 oed.

  Ein rhesymeg yma, o gofio'r rhesymeg ar yr amod uchod, yw bod dymuniad gennym i weld ein cerbydau yn cyfarfod a rhyw safon. O osod yr amod yma credwn, o nodi'r defnydd mae'r cerbydau yma'n gael y bydd eu hoedran naturiol yn arwain at iddynt gael eu newid o fewn rhai blynyddoedd, ond nid o reidrwydd 10 oed. Bydd yr amod yma yn rhwystro cerbydau sy'n 9 mlwydd ac 11 mis yn cael eu trwyddedu am y tro cyntaf, fel sy'n digwydd yn bresennol.

- Bod pob cerbyd dros 10 oed yn derbyn 3 prawf yn flynyddol, sef un prawf MOT statudol a dau archwiliad mecanyddol gan fodurdy wedi ei phenodi gan y Cyngor.

  Y rhesymeg yma yw y gall hyn sicrhau bod pob cerbyd yn addas ac mae hefyd yn mynd at leddfu unrhyw bryderon o ran priodoldeb ceir sydd dros 10 oed.

- Ein bod yn mabwysiadu trefn o gael lliwiau penodol ar gyfer y gwahanol gerbydau. Argymhellir bod cerbydau hacni yn ddu gyda boned a chefn coch a cerbydau hurio preifat yn wyn gyda boned a chefn melyn. Buasai'r newidiadau yn dod i rym fel y newidir y cerbyd.

  Ein rhesymeg yw ein bod yn ceisio eu gwneud yn amlwg i'r cyhoedd bod gwahaniaeth rhwng cerbyd hacni ac un hurio preifat. Rydym yn derbyn cwynion cyson oddi wrth y diwydiant ei hun bod cymysgedd ymysg y cyhoedd o ran y gwahaniaeth ac er ein bod yn ceisio hysbysu hyn drwy erthyglau yn y wasg, buasai mabwysiadu polisi o'r math yn ei gwneud yn weledol haws i drosglwyddo'r neges. Mae'r drefn sy'n bodoli mewn llawer Cyngor ledled y wlad. Sgil effaith hyn yw y buasai delwedd cerbydau hacni'n benodol yn cael ei godi o weld rhes o gerbydau tebyg eu lliw ar ranc.

  Ni fydd yr amod yma'n berthnasol i gerbydau sy'n derbyn Trwydded Amodol e.e. dim ond yn gwneud gwaith ar gyfer yr adran Addysg ac yn cael eu trwyddedu felly.

- Ni chaniateir i gerbydau hurio preifat arddangos arwyddion ar eu to.

  Y rhesymeg yw bod canllawiau cenedlaethol yn pwyso arnom i sicrhau bod gwahaniaethau amlwg mewn edrychiad cerbyd hacni ac un hurio preifat. Mae'r rhesgymeg yn debyg i'r un yn ymwneud a lliw ac rydym ni fel swyddogion yn fodlon derbyn nad yw'r amod yma'n cael ei weithredu os derbynir yr amod lliwiau.

<u>Unigolion</u>

- Cyflwynir cyfyndrefn bwytiau a all arwain at yrrwr gael ei alw o flaen is-bwyllgor unwaith y cyrhaeddir y nifer perthnasol o bwyntiau. Bydd y pwyntiau'n berthnasol am unrhyw gyfnod o 12 mis.

  Ein meddylfryd yma yw bod amodau'n berthnasol sydd yn ymwneud ag ymddygiad gyrrwr neu weithredwr ond nad ydynt yn eu hunain yn ddigonol i alw'r unigolyn o flaen is-bwyllgor. Galluogai'r amod yma i'n swyddogion gorfodaeth osod pwyntiau yn erbyn yr unigolyn ac ond os yw'r unigolyn yn cyrraedd 12 pwynt mewn unrhyw gyfnod o 12 mis buasai'n cael ei alw o flaen is-bwyllgor. Mae hyn yn rhoddi awdurdod i'r swyddogion gorfodaeth wrth geisio sicrhau bod amodau a safonau'n cael eu gwarchod.

- Bod angen cadw llyfr cyhaliaeth ym mhob cerbyd, gyda'r cyfrifoldeb am ei gadw'n gorwedd gyda'r gyrrwr.

  Y rhesgymeg yma yw bod bob gyrrwr, cyn cymryd perchnogaeth o gerbyd ar ddechrau ei gyfnod gwaith yn arwyddo i ddweud bod y materion hynny sydd i fod yn berthnasol â'r cerbyd yn wirioneddol yno e.e. diffodydd tân yn ei le, urnhyw fathodynau/platiau priodol yn eu lle. Mae'n gofrifoldeb ar yrrwr i sicrhau hyn a drwy arwyddo nid oes unrhyw esgus iddo/iddi ddweud nad yw'n gwybod.

- Cyn yr ystyrir cais am drwydded o'r newydd bydd angen i ymgeisydd ymgymryd a prawf ysgrifenedig, gyda'r cwestiynnau'n seiliedig ar yr amodau yma. Bydd angen cwblhau'r prawf yn foddhaol cyn yr ystyrir cais am drwydded.

Y rhesymeg y tro yma yw ein bod yn aml yn derbyn sylw gan unigolion nad oeddent yn ymwybodol o'r amodau ac nad oedd neb wedi dweud rhywbeth wrthynt. Y meddylfryd yw y bydd rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r amodau cyn cael trwydded yn y lle cyntaf. Ni fydd y prawf yn arbennig o annodd ac nid ydym yno er mwyn eu dal allan, ond er ceisio sicrhau bod bob gyrrwr/gweithredwr wedi cael cyfle i edrych ar yr amodau. Mae profion o'r math yn fwyfwy cyffredin mewn gwahanol gynghorau ledled Cymru a Lloegr.

ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor yn derbyn yr amodau newydd a bod yr amodau yna'n cael eu mabwysiadu.